

Cofiwch am lyfr rysetiau'r ysgol ar gael yng Ngarej Tŷ Mawr neu oddi wrth Miss Helen Davies yn yr ysgol.

Trawsgwlad Ceredigion

Bu cystadlu brwd eto eleni gyda plant ysgolion Ceredigion yn rhedeg am eu bywyd! Llongyfarchiadau i bawb ac yn arbennig i Martin Evans, Owain James, Sara Morgan, Joshua Shaw, Kayleigh Shaw a Lydia Shaw a ddaeth yn y deg cyntaf.

Rygbi

Llongyfarchiadau i fois y tîm rygbi a ddaeth yn ail yng nghylch Aberystwyth.

Pêl-droed

Mae tymor pêl-droed newydd ail gychwyn. Bydd tîm Penrhyn (cynghrair 1af), Bois y Fro a Bois Bro Dafydd (2il gynghrair) wrthi yn glanhau eu 'sgidiau yn barod ar gyfer cystadlu brwd.

Hoci

Mae tymor hoci wedi dod i ben. Bu'r ddau dîm yn cystadlu'n dda drwy'r tymor.

Ffair lyfrau

Gwerthwyd dros £500 o lyfrau yn ystod yr wythnos. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi. Mae darllenwyr o fri ym Mhenrhyn!

Opera

Cafodd criw o blant o ddosbarth Mr John y cyfle i gymryd rhan yn opera 'Tower' (Alun Hoddinott) yn y Neuadd Fawr. Roedd yn brofiad gwerth chweil a mwynhawyd y perfformio a'r perfformiad yn fawr.